

CYNGOR CYMDEITHAS CYNWYD

Cofnodion o gyfarfod brys a gynhaliwyd nos Fawrth 8 Awst 2017 yn y Neuadd Bentref

Presennol – Huw Evans, Delyth Thomas, Anna Thomas, Nesta Wivell, Gwen Wynne a Gwyneth Ellis

Aelodau o'r cyhoedd

Ymddiheuriadau – Nan Jones

Clerc y noson

Oherwydd diffyg Clerc cytunodd Gwyneth Ellis gadw cofnodi o'r cyfarfod yma yn unig ac i gwblhau unrhyw waith gweinyddol angenrheidiol oedd angen sylw buan.

Cofnodion 4 Gorffennaf 2017

Ni drafodwyd cofnodion mis Gorffennaf, gan mai cyfarfod brys oedd hwn. Bydd rhain yn cael eu trafod yn y cyfarfod nesaf.

Swydd y Clerc

Dim ymgeiswyr ac un ymholiad hyd yn hyn.

Materion ariannol

Delyth Thomas am gwblhau trefniadau hefo'r banc o fewn wythnos. Mae 2 fil i'w talu, bydd rhaid aros nes fod Anna a Huw hefo mandad i arwyddo sieciau.

Unllais Cymru – Clerc ymgynghorol

Penderfynwyd nad ydym am fynd ymlaen i gyflogi clerch ymgynghorol. Pan fyddwn wedi penodi clerch, yna fe allai fod o ddefnydd, ac fe wnawn ail ymweld a'r posibilrwydd bryd hynny. Gofynnwyd os oedd gan y Cyngor Sir gymorth i'w gynnig.

Cynllunio ar gyfer cyfnod di-glerc

Delyth yn gwirfoddoli i ymgymryd a dyletswyddau y swyddog ariannol, ond neb yn fodlon ymgymryd a dyletswyddau'r clerch. Os na fydd neb yn ymgeisio am y swydd, yna fe fydd rhaid cysylltu â chlercod cynghorau cyfateb i weld os y byddent yn cysidro gweithio i ni am gyfnod.

Llythyr i'r cyn-glerc i ofyn am ddogfennau'r cyngor

Ansicr od ydy'r llythyr gan Unllais Cymru wedi ei yrru. Huw yn gwirfoddoli i gysylltu â'r cyn glerc i ofyn am y dogfennau. Os na chawn ateb cadarnhaol erbyn 18 Awst, yna bydd rhaid anfon llythyr swyddogol i'r Sir i ofyn am gymorth.